Eisteddfod Gadeiriol Llanuwchllyn 2024

Cynhaliwyd Eisteddfod Gadeiriol Llanuwchllyn ar Ddydd Sadwrn 18 o Fai yn y Neuadd Bentref ar benwythnos heulog braf. Yr oedd hyn wythnos ynghynt na fwriadwyd gan y Pwyllgor gan fod Rali Ffermwyr Ifanc Meirionnydd wedi ei threfnu ar y dyddiad - y gobaith yw dychwelyd i'r Sadwrn olaf yn Mai ar gyfer 2025.

Cafwyd Pabell Lên yn ystod y bore Gwener yn Ysgol O. M. Edwards, pryd y traddodwyd beirniadaethau'r gwaith cartref cynradd gan Delyth Medi Jones, Trawsfynydd a Nia Davies, Fron Goch. Dyfarnwyd y Gadair Gynradd i Grug Gwent a llongyfarchiadau gwresog ar ei champ ar ôl iddi ennill Cadair Eisteddfod yr Ysgol yn gynharach yn y flwyddyn. Yna, ar y Dydd Sadwrn bu cystadlu graenus yn ystod cyfarfodydd y bore, prynhawn a'r hwyr. Braf iawn oedd gweld cynulleidfa deilwng a gwerthfawrogol wedi dod i fwynhau'r cystadlu.

Ein beirniaid am eleni ac yn derbyn ein diolch diffuant oedd Siân Meinir, Penarth (Cerdd), Haf Evans, Henllan (Adrodd), Gwenan Gibbard, Pwllheli (Cerdd Dant), Arwel Emlyn Jones, Rhuthun (Barddoniaeth Uwchradd ac Agored) a Mari Tudor, Fron Goch (Rhyddiaith Uwchradd ac Agored). Y llywydd gwadd oedd Non Parri Roberts, Llanwrin. Diolch yn fawr i ti Non am anerchiad a chyngor gwreiddiol a defnyddiol i gystadleuwyr, a'r rhodd anrhydeddus at drysor yr Eisteddfod.

Diolch i Sion Tudor Jones, Eirian Roberts, Llyr Evans, Meilir Williams ac Euros Roberts am arwain y cyfarfod mor esmwyth a didrafferth. Yr ydym yn hynod ffodus ac yn ddyledus iawn i'r cyfeilyddion, sef Siwan Davies, Nia Morgan, Elain Wyn a Tudur Jones fu'n ddiwyd trwy gydol y dydd.

Diolch i Gyfeillion Ysgol O M Edwards am fod yng ngofal y bwyd, gan sicrhau lluniaeth blasus i'r beirniaid, swyddogion a'r cyhoedd ac i bawb gyfrannodd at y lluniaeth a'r gwobrau raffl. Bu nifer wrthi yn ddiwyd cyn yr Eisteddfod yn gwerthu Tocynnau Noddwyr - diolch yn fawr iawn i'r gwerthwyr ar prynwyr a lwyddodd i godi bron i £1,000! Diolch hefyd i'r stiwardiaid am werthu tocynnau wrth y drws a chadw trefn ac i Martha a Jini fu yng ngofal y rhubanau ar ochr y llwyfan.

Gwerthfawrogwn unwaith yn rhagor gymorth a chefnogaeth flynyddol Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen a Chronfa'r Degwm Cyngor Gwynedd, Ymddiriedolaeth D Tecwyn Lloyd a Chyngor Cymuned Llanuwchllyn. Diolch yn arbennig hefyd i Nerys a Nia (Henryd gynt) ac i deulu Gwernhefin am eu cefnogaeth arferol trwy roddion gwobrau.

Diolch i Ann Jones fel Llywydd y Pwyllgor ac i'r Trysorydd, Dylan Evans am ei waith trylwyr a diymhongar a gweddill aelodau'r pwyllgor fu'n dewis darnau a chynorthwyo mewn amrywiol ffyrdd yn ystod y cyfnod paratoadol. Rhaid hefyd yw estyn ein gwerthfawrogiad yn ôl yr arfer i staff a chymorthyddion Ysgol O. M. Edwards am eu cefnogaeth ac yn arbennig i Mrs Siwan Davies am ei chymorth diflino yn cydgordio trefniadau rhwng y pwyllgor a'r Ysgol.

Yr oedd Cadair yr Eisteddfod eleni yn rhoddedig gan y Hywel Jones, Aberystwyth i gydnabod deugain mlynedd o bleser gafodd fel aelod o Gôr Godre'r Aran a diolch iddo am ei haelioni. Braf oedd cael clywed gan Arwel Emlyn Jones wrth draddodi o'r llwyfan bod teilyngdod allan o 11 ymgais. Gareth Owen gynt o'r Gwyndy ond bellach o Aberystwyth gipiodd y Gadair am gyfres o gerddi ar y testun "Drws". Cafwyd cyfarchion barddol gan Alan Jones Evans, Gruffudd Antur, Beryl H. Griffiths a Haf Llewelyn. Diolch i Euros am sefyll i mewn fel Meistr y Ddefod ac i Steffan Prys am ganu Cân y Cadeirio i gyfeiliant Tudur.

Yn olaf ond yn sicr nid leiaf carem fel Pwyllgor ddiolch i'r cystadleuwyr, rhieni a hyfforddwyr a ddaeth i gystadlu a chefnogi Eisteddfod Llanuwchllyn eleni, gan obeithio y cawn fynd o nerth i nerth yn y dyfodol. Dyma'r buddugwyr (o Lanuwchllyn oni nodir yn wahanol) â llongyfarchiadau gwresog i bawb fu'n cystadlu a dymuniadau gorau i bawb sydd yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Meifod yr wythnos hon: -

Unawd Blwyddyn Meithrin: 1af Wil James; 2il Gwion Davies; 3ydd Meredydd Tomos. Unawd Blwyddyn Derbyn: 1af Mabli Nel Jones; 2il Gweno Evans, Rhydymain; 3ydd Sel Williams, Llangywer. Unawd Bl. 1 a 2: 1af Casi Lloyd, Pentrecelyn; 2il Efa Mahala, Corwen; 3ydd Mabon Roberts. Unawd Bl. 3 a 4: 1af Caradog Jones; 2il Emrys Jarman; 3ydd Beca Jones. Unawd Bl. 5 a 6: 1af Math Jones; 2il Cati Pritchard; 3ydd Elen Aur Roberts. Deuawd Cynradd: 1af Cati Siriol Pritchard ac Elen Aur Roberts. Côr neu Barti dan 12 oed: 1af Côr yr Aran. Unawd ar unrhyw offeryn cerdd oed Cynradd: 1af Enfys Jones; 2il Lleucu Gwen Jones; 3ydd Malen Roberts. Unawd ar unrhyw offeryn cerdd oed Uwchradd: 1af Malena Aled, Parc; 2il Brychan Edwards. Unawd Bl. 7, 8 a 9: 1af Blodwen Jones; 2il Morgan Williams, Rhuthun; 3ydd Lois Hughes a Lili Williams, Rhuthun. Deuawd Uwchradd: 1af Brychan Edwards a Deio Emlyn Edwards, Parc; 2il Lois Hughes a Lili Williams. Côr neu Barti dan 16 oed: 1af

Côr yr Aran. Canu Emyn Agored: 1af Arwel Ll. Jones. Cân o Sioe Gerdd dan 30 oed: 1af Tomos Heddwyn Griffiths, Trawsfynydd; 2il Lois Hughes; 3ydd Lowri Jarman. Unawd Gymraeg: 1af Tomos Heddwyn Griffiths. Y Brif Unawd: 1af Tomos Heddwyn Griffiths. Côr neu Barti Agored: 1af Côr y Llan; 2il Detholion Eryrod Meirion.

Unawd Cerdd Dant Bl. 1 a 2: 1af Efa Mahala, Corwen; 2il Lleucu Jones. Unawd Cerdd Dant Bl. 3 a 4: 1af Emrys Jarman; 2il Willow Smith; 3ydd Beca Jones. Unawd Cerdd Dant Bl. 5 a 6: 1af Cati Pritchard; 2il Elen Aur Roberts a Math Jones; 3ydd Iori Emlyn Edwards, Parc. Côr neu Barti dan 12 oed: 1af Côr yr Aran; 2il Parti Bl. 6; 3ydd Parti Bl. 4. Unawd Cerdd Dant Bl. 7, 8 a 9: 1af Blodwen Jones; 2il Elias Jones; 3ydd Deio Emlyn Edwards. Deuawd Cerdd Dant Uwchradd: Deio Emlyn Edwards a Brychan Edwards.

Adrodd Blwyddyn Derbyn: 1af Gweno Evans; 2il Mabli Nel Jones; 3ydd Nel Roberts a Sel Williams. Adrodd Blwyddyn Meithrin: 1af Wil James; 2il Gwion Davies; 3ydd Aran Jones a Meredydd Tomos. Adrodd Bl. 1 a 2: 1af Efa Mahala; 2il Mabon Roberts; 3ydd Ana Jones. Adrodd Bl. 3 a 4: 1af Emrys Jarman; 2il Tegid Gwent a Caradog Jones. Adrodd Bl. 5 a 6: 1af Gruff Owen; 2il Iori Emlyn, Parc a Daniel Jones; 3ydd Grug Gwent. Adrodd Bl. 7, 8 a 9: 1af Malena Aled; 2il Elias Jones. Cyd-Adrodd Agored: 1af Drudwns Aber, Aberystwyth.

Y Gadair: Gareth Owen, Aberystwyth. Telyneg: 1af Myfanwy Roberts, Llanrwst; 2il Megan Richards, Aberaeron. Tri Thriban: 1af Trefor Huw Jones, Pentre'r Eglwys, Pontypridd; 2il John Meurig Edwards, Aberhonddu a Myfanwy Roberts. Soned: 1af John Meurig Edwards. Englyn: 1af Gruffudd Gwynn, Caerffili; 2il Owain Roberts, Cerrig; 3ydd Alan Iwi, Didcot. Barddoniaeth dan 19 oed: 1af Mali Owen, Ysgol Botwnnog; 2il Gwil Jones, Ysgol Botwnnog. Barddoniaeth Bl. 7, 8 a 9: 1af Seren Jackson, Ysgol Botwnnog; 2il Ifan Midwood, Ysgol Botwnnog; 3ydd Elin-Jen Williams, Ysgol Botwnnog. Bl. 5 a 6: 1af Grug Gwent; 2il George Smith; 3ydd Ania Jones. Barddoniaeth Bl. 3 a 4: 1af Caron Edwards; 2il Ianto Owen; 3ydd Elsbeth Hickish.

Prif Draethawd: 1af Elliw Haf Jones. Rhyddiaith Agored: Ioan Hughes, Pencaenewydd. Rhyddiaith Agored: 1af Gaenor Mai Jones, Rhondda Cynon Taf; 2il Gaenor Mai Jones. Rhyddiaith dan 19 oed: 1af Lleucu Hughes a Gwil Jones, Ysgol Botwnnog; 2il Gwil Jones. Rhyddiaith Bl. 7, 8 a 9: 1af Hywyn Euros, Llangybi; 2il Iago Evans a Begw Llyr Williams, Ysgol Botwnnog; 3ydd Martha Glyn. Rhyddiaith Bl. 5 a 6: 1af Emyr Dafydd; 2il Bedwyr Evans; 3ydd Ania Jones. Rhyddiaith Bl. 3 a 4: 1af Beca Jones; 2il Willow Smith; 3ydd Greta Williams, Llangywer. Rhyddiaith Bl. 2 1af: Mabon Roberts; 2il Cal Jones; 3ydd Ana Jones. Rhyddiaith Blwyddyn Derbyn: 1af Elena Evans; 2il Mabli Jones; 3ydd Leo Parry.

Arlunio Agored: 1af Branwen Haf Tomos; 2il Cari Sioux. Arlunio Uwchradd: 1af Martha Glyn; 2il Martha Glyn. Arlunio Bl. 5 a 6: 1af Fflur Roberts, Parc; 2il Cati Pritchard ac Elen Aur Roberts; 3ydd Emyr Dafydd. Arlunio Bl. 3 a 4: 1af Seren Glyn Jones; 2il Malen Roberts ac Emrys Jarman; 3ydd Elsbeth Hickish. Arlunio Bl. 1 a 2: 1af Mabon Roberts; 2il Jona Childs; 3ydd Heledd Pugh ac Ana Jones. Arlunio Blwyddyn Derbyn: 1af Elena Evans; 2il James Orton a Leo Parry; 3ydd Sel Williams, Mabli Jones a Nel Roberts. Arlunio Meithrin: 1af Gruff Jarrett ac Aran Jones; 2il Gwion Davies a Wil Jones; 3ydd Rosina Hickish a Dyfan Blockley. Arlunio Ysgol Feithrin: 1af Meredydd Tomos; 2il Meredydd Tomos ac Eisac Mitchell; 3ydd Osian Jones, Carys Pugh, Guto Evans, Phoebe Mucclloch a Cianan Brenen.

Crefft Uwchradd: 1af Elias Jones; 2il Martha Glyn; 3ydd Martha Glyn. Crefft Bl. 5 a 6: 1af Ria Thomas a Lois Evans; 2il Iori Gwyn, Math Jones a Cati Pritchard; 3ydd Daniel Jones, Marged Horan a Fflur Roberts. Crefft Bl. 3 a 4: 1af Poppy May ac Emrys Jarman; 2il Ruby Dodd; 3ydd Seren Glyn Jones a Malen Roberts a Tegid Gwent. Crefft Bl. 1 a 2: 1af Ewan Dafydd; 2il Mabon Roberts a Lleucu Jones; 3ydd Heledd Pugh. Crefft Blwyddyn Meithrin: 1af Gruff Jarrett; 2il Pheobe Mucclloch a Meredydd Tomos; 3ydd Aran Jones a Gwion Davies. Crefft Blwyddyn Derbyn: 1af Elena Evans a Sel Williams; 2il Nel Roberts a Mabli Jones; 3ydd James Orton a Leo Parry.

<u>Tlysau a Thariannau</u>

Barddoniaeth Cynradd: Grug Gwent; **Cystadleuydd gorau yn yr Adran Adrodd dan 16 oed (Cwpan er cof am Eilir Wyn Parry, Y Wern):** Malena Aled; **Cystadleuydd gorau yn yr Adran Cerdd neu Gerdd Dant (Cwpan er cof am Mrs Enid Pierce Jones):** Cati Pritchard**; Cystadleuydd mwyaf addawol yn yr Adran Cerdd, Cerdd Dant neu Adrodd rhwng 16 a 30 oed (Cwpan er cof am Elin Mair Jones):** Tomos Heddwyn; **Canu Emyn Agored (Cwpan Goffa D. Lloyd Jones):** Arwel Ll. Jones.